O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 14 (Cy. 6)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Traphont Saltings, Cyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

Gwnaed	*11 Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*21 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ionawr 2013, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Traphont Saltings, Cyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o Gefnffordd yr A465 yng Nghyfnewidfa Castell-nedd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.